Iesu'n mynd i'r deml pan oedd yn fachgen **Luc 2: 41-52**

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Luc 2: 41-52		
1	Byddai rhieni Iesu yn arfer mynd i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg bob blwyddyn, a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed aethon nhw yno i'r Ŵyl fel arfer.		
2	Roedd llawer o bobl yn dathlu'r Ŵyl bob blwyddyn. Roedd y strydoedd yn brysur iawn.		
3	Pan oedd yr Ŵyl drosodd dyma ei rieni yn troi am adre, heb sylweddoli fod Iesu wedi aros yn Jerwsalem.		

4	Roedden nhw wedi teithio drwy'r dydd gan gymryd yn ganiataol ei fod gyda'i ffrindiau yn rhywle.	
5	Dyma nhw'n mynd ati i edrych amdano ymhlith eu ffrindiau a'u perthnasau, ond methu dod o hyd iddo.	
6	Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Jerwsalem i edrych amdano.	
7	Roedd hi'r trydydd diwrnod cyn iddyn nhw ddod o hyd iddo!	
8	Roedden nhw wedi chwilio ym mhob man.	

9	Ond, roedd Iesu wedi bod yn y deml.....	
10	.....yn eistedd gyda'r athrawon ac yn gwrando arnyn nhw ac yn gofyn cwestiynau.	
11	Roedd pawb welodd e yn rhyfeddu gymaint roedd yn ei ddeall.	
12	Cafodd ei rieni y fath sioc pan ddaethon nhw o hyd iddo, a dyma'i fam yn gofyn iddo, “Machgen i, pam rwyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti.”	
13	Gofynnodd Iesu iddyn nhw, “Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siŵr o fod yn nhŷ fy Nhad?”	

14	Ond doedd ei rieni ddim wir yn deall beth roedd yn ei olygu.	
15	Felly aeth Iesu yn ôl i Nasareth gyda nhw a bu'n ufudd iddyn nhw. Roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf. Roedd ffafr Duw arno, ac roedd pobl hefyd yn hoff iawn ohono.	
16	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org
17		